

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
24/2/2020**

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chydymdeimlwyd gyda Geraint Roberts a theulu Pantronnen yn eu profedigaeth ddiweddar.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 20, 2020
5. Materion yn codi:
 - a. Cynnal a chadw'r Fynwent: cytunwyd ar y pris a gynigwyd ar gyfer 3 toriad yn 2020.
 - b. Hawl claddu yn y Fynwent: Oherwydd fod gofod yn brin iawn yn y fynwent, cytunwyd i flaenoriaethu'r gofod sydd ar ôl ar gyfer cysylltiadau agos gyda phlwyf Llangywer, ac i lunio canllawiau i'r perwyl hwn. Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru am y cyfyngiadau o ran claddu yn ymyl ffos, afon a llyn, ac ar orlifdir. Cytunwyd i ofyn am farn arbenigwr i archwilio'r safle yn yr haf, er mwyn darganfod a oes llefydd ar gyfer claddu yn y darn isaf o'r fynwent.
6. Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd, Alan Jones Evans, a ddywedodd fod y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf i gyd wedi derbyn sylw. Ychwanegodd fod cwynion pellach wedi eu gwneud am y perygl oherwydd nad oes ffens rhwng y ffordd a'r rheilffordd wrth bont y lein. Dywedodd ei fod wedi trafod y mater gyda'r Cwmni Rheilffordd ac wedi derbyn addewid y bydd y mater yn cael sylw. Diolchwyd iddo am ei waith.

7. Materion ariannol:

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol
 - i. Nodwyd y dderbynneb am gost cynnal y Wefan.
 - ii. Cytunwyd i dalu aelodaeth Un Llais Cymru - £43
 - iii. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am y flwyddyn.
- b. Dyrannwyd grantiau i'r gymuned fel a ganlyn:
 - Neuadd Llangywer £650
 - Cantref £50
 - Ffederasiwn CFfi Meirionnydd £200
 - Theatr Bara Caws £25

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Dinbych) £50

Eisteddfod Cylch Penllyn £100

Eisteddfod Powys 2021 £100

8. **Materion lleol** gan aelodau'r Cyngor Cymuned: Cytunodd Alan Jones Evans i holi am well clo a camera ar gyfer y lloches biniau.

9. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd fod y gwaith wedi ei osod i adeiladwyr wella'r llawr uchaf.

10. **Gohebiaeth:**

Un llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Gofrestr Buddiannau Cyngorwyr ac uwchraddiwyd y Gofrestr presennol.

Gwynedd: Derbyniwyd llythyr yn cynnig cymorth i wynebu anawsterau oherwydd Brexit.

11. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Mai 11, 2020 yn y Neuadd Bentref am 8.30pm

Amser gorffen: 9.00pm